**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus Agored i drafod Ailagor y Toiledau Cyhoeddus nos Fercher, Chwefror 24ain 2016 am 7 o'r gloch yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Pamela Harries, Elen Edwards, Gwydion Jones, Olwen Evans

Presennol: D G Davies (Cadeirydd), Diane Roberts, Lynda Kettle, Ann Vaughan, Darryl Flynn, Ian W Griffith, Gwyn Williams, Emlyn Williams, Ifor Edwards, Cyng D O Roberts a'r Clerc Cyfieithydd – Dwysan Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Darllenodd y Cerc adroddiad Gary Williams o Gyngor Conwy oedd yn gobeithio y byddai'r contractwyr G Parry yn gorffen y gwaith ar y toiledau o fewn yr wythnos. Hefyd dywedodd y Clerc bod Grŵpiau Llansannan a Llandrillo yn fodlon cynorthwyo. Penderfynwyd i ethol pwyllgor newydd i fod yng ngofal y Toiledau. Teimlwyd braidd yn siomedig nad oedd llawer o bobl yn bresennol a chafwyd sylw nad oedd y cyfarfod wedi ei hysbysebu'n eang.

Etholwyd y canlynol i'r pwyllgor: Darryl Flynn, Lynda Kettle, Dilwyn Roberts, Pamela Harries, Olwen Evans, Ifor Edwards, Ann Vaughan, Elen Edwards.
Penderfynwyd i gyfarfod nos Fercher, Mawrth 2il am 7.30 yh yn y Ganolfan. Y Clerc i roi gwybod i'r aelodau a chreu poster i hysbysebu'r cyfarfod agored.

---

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Chwefror 24ain 2016 am 7.45 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Tecwyn Evans, Gwydion Jones, Elen Edwards

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Gwyn Williams, R Emlyn Williams, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, Cyng D O Roberts a'r Clerc.

50.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

50.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfodydd 18 Ionawr a 27 Ionawr 2016 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu derbyn fel cofnod cywir.

50.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
50.3.1 PONT HENDRE DDU – deallir y bydd y bont ar gau am flwyddyn.
50.3.2 PANEL PANDY TUDUR – mynegodd y Cadeirydd ddiddordeb yn y mater. Bydd adroddiad llawn yn y cyfarfod nesaf.
50.3.3 HYSBYSFWRDD PANDY TUDUR – angen holi Kevin Roberts i roi soced haearn i ddal y polion.
50.3.4 CYFIEITHU COFNODION – cafwyd pris o £40 + TAW am gyfieithu mil o eiriau gan Cyfieithu Cymunedol. PENDERFYNWYD i ofyn am bris gan Mr John Edwards, Llangernyw.

50.3.5 CWT YR HERS, GWYTHERIN – yn ôl Adran Gyfreithiol Cyngor Conwy bydd angen gweithredoedd er mwyn cofrestru tir ac adeilad. PENDERFYNWYD i gysylltu ag Esgobaeth Llanelwy a'r Gorestrfa Tir ac i feddwl am gofrestru Mynwentydd Llangernyw a Garnedd hefyd.
50.3.6 HYDRANT TÂN – cafwyd ateb gan yr Awdurdod Tân yn cadarnhau bod digon o ffynonellau dŵr agored a hydrantau yn yr ardal. Hefyd mae gan y swyddogion tân offer cyfrifiadurol angenrheidiol i leoli'r hydrantau hyd yn oed os nad ydynt yn weladwy i'r cyhoedd.
50.3.7 TÂN YM MHARC AELAS – derbyniwyd ateb gan Grŵp Cynefin yn nodi nad yw adroddiadau archwilwyr wedi dod i law eto ond pe byddai unrhyw awgrym o berygl i gymdogion byddai'r cwmni wedi cymryd camau brys. Ni chafwyd awgrym mai diffyg yn yr eiddo achosodd y tân. Bydd y gwaith adnewyddu yn cychwyn yn syth ar ôl cael caniatâd y cwmni yswiriant.
50.3.8 CLIRIO EIRA YNG NGWYTHERIN – cafwyd ateb gan yr Adran yn nodi bod lori graeanu wedi bod trwy Wytherin ar y bore dan sylw ac os oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw bryder ynglŷn a chyflwr ffordd oherwydd eira neu rew gallem gysylltu â'r Adran rhag blaen. Rhoddwyd y rhifau ffôn perthnasol i'r aelodau.

50.4 GWAITH AR LWYBR CYHOEDDUS – derbyniwyd pris gan Mr Kevin Roberts i wneud gwaith ar lwybr oddi wrth y 'Bridge' Llangernyw tuag at Bont Rhydygerwyn. PENDERFYNWYD i'w basio mlaen i'r sir er mwyn gwneud cais am arian.

50.5 PONT GER CARTREF YR HEN FICERDY – datganwyd bod angen pont dros dro ar frys yma. Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Roberts gysylltu â'r adran y bore canlynol a'r Clerc hefyd i gysylltu â'r Adran Amgylchedd.

50.6 CYFRANIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i gyfrannu £30 at Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy a £30 at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir y Fflint 2016.

50.7 CRONFA BRO CERNYW – derbyniwyd cais i'w drafod a PHENDERFYNWYD ei roi ar Agenda y cyfarfod nesaf. Ac i holi am gais Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol.

50.8 UN LLAIS CYMRU – PENDERFYNWYD i ymaelodi ag Un Llais ar gost o £138.

50.9 ADRODDIAD O GWRS UN LLAIS – cafwyd adroddiad o gwrs 'Cyfarfod y Cyngor' a gynhaliwyd ym Mhenmaenmawr gan Ann O Vaughan. Teimlai ei bod yn werth iddi fod ar y cwrs a diolchwyd iddi am yr adroddiad.

50.10 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon dogfennau ar lein i'r aelodau – Cofnodion Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref Conwy, Sylwadau Un Llais ar Bil Drafft Llywodraeth Leol, Gwobrau Busnes Conwy, Strategaeth Gofal Iechyd Cynradd, Rhestr Ddilysu Leol – Cyngor Conwy.

50.11 Y WEFAN – roedd Arfon Parry yn fodlon rhoi hyfforddiant anffurfiol i un neu ddau ynglŷn â'r wefan. Trafodwyd rhoi mwy o hysbysrwydd i'r wefan – e.e. yn Y Gadlas, ar bosteri, taflenni (flyers). PENDERFYNWYD i gael golwg ar y wefan erbyn y cyfarfod nesaf.

50.12 MATERION LLEOL
50.12.1 Yr ystafell yn y Ganolfan yn oer – Ian Griffith am godi'r mater gyda Phwyllgor y Ganolfan.
50.12.2 Angen clirio pridd o Fynwent Llangernyw – angen gofyn i Kevin Roberts am bris i'w symud.

50.12.3 Pont Hendre Ddu – angen gwneud cais iddynt lefelu'r ffordd wrth wneud y bont er mwyn hwyluso cerbydau gyda threlar ymuno â'r briffordd.
50.12.4 Gwterydd allt newydd Pandy Tudur heb eu glanhau.
50.12.5 Cafwyd cais am lythyr cefnogaeth i Amgueddfa'r Cwm am arian grant i Brosiect y Rhyfel Byd Cyntaf. Cytunwyd â hyn.
50.12.6 Adroddodd Cynghorydd Dilwyn Roberts y bydd y biniau sbwriel du yn cael eu gwagio bob tair wythnos a bydd cynllun peilot o gasglu bob pedair wythnos mewn un ardal. Gobeithir cael biniau clytiau babanod yn wythnosol.
50.12.7 Cyfeiriodd Cyngh Roberts at y bleidlais diffyg hyder yn yr Arweinydd sy'n digwydd yng Nghyngor Conwy yn fuan.

50.13 BILIAU

| | |
|---|---|
| Shaw & Sons (Llyfr Derbynebau Claddu) | £23.82 |
| Cradur.com (Cynnal y Wefan) | £340.00 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 y.h.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ....D G Davies........................ Dyddiad ...23/3/16........................*

Open Public Meeting was held to discuss reopening the Public Toilets on Wednesday, February 24th 2016 at 7 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Pamela Harries, Elen Edwards, Gwydion Jones, Olwen Evans

Present: D G Davies (Chair), Diane Roberts, Lynda Kettle, Ann Vaughan, Darryl Flynn, Ian W Griffith, Gwyn Williams, Emlyn Williams, Ivor Edwards, Cllr D O Roberts & Clerk
Translator - Dwysan Roberts

The Chair welcomed everyone to the meeting. The Clerk read a report by Gary Williams of Conwy Council hoping the G Parry contractors would finish the work on the toilets within a week. The Clerk also said that Llansannan and Llandrillo groups are willing to assist. Decided to elect a new committee to take charge of the toilets. We felt a little disappointed that there weren't many people in attendance and there was a comment that the meeting had not been widely publicized.

The following were elected to the committee: Darryl Flynn, Lynda Kettle, Dilwyn Roberts, Pamela Harries, Olwen Evans, Ifor Edwards, Ann Vaughan, Elen Edwards. Decided to meet on Wednesday, March 2nd at 7.30 pm at the Centre. Clerk to inform members and create a poster to advertise the open meeting.

***********************************

Community Council Meeting was held on Wednesday, February 24th 2016 at 7.45 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Tecwyn Evans, Gwydion Jones, Elen Edwards

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Gwyn Williams, R Emlyn Williams, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, Cllr D O Roberts & Clerk.

50.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

50.2 MINUTES - looked at minutes of meetings of January 18 and January 27, 2016 and RESOLVED unanimously to accept them as a correct record.

50.3 MATTERS ARISING
50.3.1 HENDRE DDU BRIDGE - it is understood that the bridge would be closed for a year.
50.3.2 PANDY TUDUR PANEL - the Chairman expressed interest in the matter. A full report will be given at the next meeting.
50.3.3 PANDY TUDUR NOTICEBOARD - need to ask Kevin Roberts for iron sockets to hold the poles.
50.3.4 TRANSLATION OF MINUTES – Cyfieithu Cymunedol gave a price of £ 40 + VAT for translating a thousand words. RESOLVED to ask for a price from Mr John Edwards, Llangernyw.
50.3.5 HEARSE SHED, GWYTHERIN - Conwy Council's Legal Department will be required the deeds of land and building. RESOLVED to contact the Diocese of St Asaph and Land Registry and to think about registering Llangernyw and Garnedd cemeteries also.
50.3.6 FIRE HYDRANT – a reply was received by the Fire Authority confirming that there is enough open water sources and hydrants in the area. Officials also have the necessary computer equipment to locate the fire hydrant even if they are not visible to the public.
50.3.7 FIRE AT PARC AELAS – Group Cynefin sent a reply stating that auditors' reports had not been received yet but if there was any indication of danger to neighbours that the company would have taken immediate action. There has been no indication that a fault in the property caused the fire. The renovation work will start immediately after obtaining the consent of the insurance company.
50.3.8 CLEARING SNOW IN GWYTHERIN – a reply was received by the Department stating that gritters had been through Gwytherin on the morning in question and if the Community Council had any concerns about road conditions due to snow or ice we should contact the Department forthwith. The relevant phone numbers were given to members.

50.4 WORK ON PUBIC FOOTPATH - received Mr Kevin Roberts's price to do the work on the path from the 'Bridge' Llangernyw towards Rhydygerwyn bridge. RESOLVED to pass this on to the county to apply for funding.

50.5 BRIDGE NEAR OLD VICARAGE HOME - declared that a temporary bridge was needed here. Cllr Dilwyn Roberts agreed to contact the department the following morning and also the Clerk to contact the Department of Environment.

50.6 FINANCIAL CONTRIBUTIONS - RESOLVED to contribute £ 30 towards the Conwy Valley Chair Eisteddfod and £ 30 towards the Urdd National Eisteddfod in Flintshire in 2016.

50.7 BRO CERNYW FUND - a request was received for discussion and RESOLVED to put on agenda of the next meeting. And to enquire about the application by the School PTA.

50.8 ONE VOICE WALES - RESOLVED to join One Voice at a cost of £ 138.

50.9 REPORT ON ONE VOICE COURSE – Ann Vaughan reported on a course 'Council Meeting' held in Penmaenmawr. She felt the course was worthwhile and she was thanked her for the report.

50.10 CORRESPONDENCE - the Clerk to send documents online to members – Minutes of Conwy Community and Town Councils Forum, One Voice Comments on the Draft Local Government Bill, Conwy Business Awards, Primary Health Care Strategy, Local Validation List - Conwy Council.

50.11 WEBSITE - Arfon Parry was willing to give informal training to a couple on the website. Discussed giving more publicity to the website - eg in the Gadlas, on posters, leaflets (flyers). RESOLVED to view the website by the next meeting.

50.12 LOCAL ISSUES
50.12.1 The room at the Canolfan was cold - Ian Griffith to raise the issue with the Community Centre committee.
50.12.2 Soil needs to be cleared from Llangernyw Cemetery – need to ask Kevin Roberts for the price to move it.
50.12.3 Hendre Ddu Bridge - need to request the Council to level the road when repairing the bridge to ease the entrying of the highway by vehicles with trailers.
50.12.4 Gutters on Pandy Tudur new hill need to be cleaned.
50.12.5 There was a request for a letter of support for grant money Henry Jones Museum WWI Project. This was agreed.
50.12.6 Cllr Dilwyn Roberts reported that the black dustbins will be emptied every three weeks and a pilot four weekly gathering scheme would be operated in one area. He hoped that there would be weekly baby nappy bins.
50.12.7 Cllr Roberts referred to the lack of confidence in the Leader vote which was being held in Conwy Council shortly.

50.13 BILLS
Shaw & Sons (Book of Burial Receipts) £ 23.82
Cradur.com (Maintaining the Website) £ 340.00

The meeting ended at 9.20 y.h.

Approved the Minutes .....D G  Davies................ Date ...23/3/16............................